# Lles diwylliannol

‘Mae gennym amgylchoedd hardd, mannau gwyrdd i ymarfer corff, beicio, cerdded. Mae’r ardal wedi gwella’n aruthrol dros y 10 mlynedd diwethaf ac mae’n parhau i wneud hynny.’

Fe wnaethom ni ganfod

## Rydym ni’n gwerthfawrogi cymdeithasu gan ei fod yn cryfhau perthnasoedd

- Mae data’n dangos bod lles meddyliol yn gwella yn yr ardal ond mae’n dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru.
- Mae cyfarfod â phobl yn helpu i leihau unigedd ac yn cefnogi iechyd meddwl gwell.
- Mae llawer o weithgareddau yn yr ardal sy’n dod â phobl o bob oed a chefndir at ei gilydd.
- Mae llyfrgelloedd yn lleoedd sy’n gallu cefnogi lles: lle i bobl o bob oed gyfarfod, cymdeithasu a dysgu. ‘Y llyfrgell yw un o’m lleoedd hapus.’
- Mae RhCT yn datblygu ‘llyfrgell ddynol’ i ddod â phobl at ei gilydd o wahanol gefndiroedd i ddod i adnabod ei gilydd ac i rannu hanes eu bywyd.

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae gallu ymuno mewn gweithgareddau hamdden ac adloniant yn bwysig i ni

- Mae angen cysylltiadau trafnidiaeth da er mwyn i bobl allu cymdeithasu a defnyddio mannau celfyddydol a hamdden.
- Mae cyfleoedd hamdden diogel a fforddiadwy yn bwysig.
- Mae llawer o dimau chwaraeon lleol a chlybiau athletau i bobl o bob oed fod yn actif.
- Mae adeiladau lleol fel Neuadd y Dref Maesteg a Chanolfan Gelfyddydau Bwrdeistrefol Pontypridd yn cael eu hadnewyddu i wella mynediad i gelfyddydau cymunedol i bawb.

Fe wnaethom ni ganfod

## Y pethau gorau am fyw yn yr ardal yw ein cymunedau a’r amgylchedd naturiol

- Mae cymunedau’n rhan bwysig o’r lles diwylliannol gan greu ymdeimlad o berthyn a lleihau unigedd.
- Mae cerddoriaeth yn bwysig i ni. Mae llawer o grwpiau canu, traddodiadau cerdd a dawns. Mae corau meibion yn parhau i ffynnu yn yr ardal.
- Mae rhaglenni cerddoriaeth a’r celfyddydau yn cefnogi lles emosiynol a meddyliol pobl ifanc. Mae’r rhai sy’n cymryd rhan wedi dangos gwelliant yn eu lles.
- Mae gennym amrywiaeth o amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth sy’n dangos ein gorffennol diwydiannol a diwylliannol.
- Mae ein gorffennol yn siapio’r dirwedd, yr arfordir a’r cymunedau rydym yn byw ynddynt ac yn eu mwynhau – yr amgylchedd naturiol, y mannau gwyrdd a’r traethau baner las.
- Mae gwirfoddoli yn gwneud gwahaniaeth mawr i helpu ein gilydd ac roedd yn arbennig o bwysig yn ystod Covid.
- ‘Drwy gydol Covid, a’r stormydd cyn hynny, daeth cymunedau at ei gilydd ac edrych allan am ei gilydd.’

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae hunaniaeth ac iaith yn bwysig i ni

- Mae nifer y bobl yn yr ardal sy’n gallu siarad Cymraeg yn cynyddu.
- Mae hyrwyddo’r Gymraeg yn bwysig i ni ac rydym am i’n plant ddysgu mwy o Gymraeg a hanes Cymru yn yr ysgol.
- Bydd RhCT yn cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2024. Bydd hwn yn gyfle i ddathlu ein hiaith a’n diwylliant Cymraeg.
- Mae dosbarthiadau Cymraeg a boreau coffi ar gael yn y llyfrgelloedd lleol ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.
- Mae llawer o ieithoedd eraill yn cael eu siarad yn ein cymunedau, fel Pwyleg, Portiwgaleg a Tsieceg.

Mae’r adroddiad asesu llawn i’w weld yn:

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf**

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Phen-y-Bont ar Ogwr**